COFNODION CYFARFOD O'R PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU CORFFORAETHOL GYNHALIWYD YN HYBRID YN SIAMBR Y CYNGOR – Y SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR, CF31 4WB YMLAEN DYDD LLUN, 16 MAWRTH 2026 YN 10:00

Presennol

Cynghorydd A Ulberini-Williams – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| JPD Blundell | HJ David | M L Hughes | E D Winstanley |

Presennol o bell

| | | | |
|---|---|---|---|
| F D Bletsoe | N Clarke | H Griffiths | J Llewellyn-Hopkins |
| RL Penhale-Thomas | T Thomas | AJ Williams | MJ Williams |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

Y Cynghorydd Jane Gebbie - Dirprwy Arweinydd / Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol, Iechyd a Llesiant oherwydd busnes blaenorol arall y Cyngor
Claire Marchant - Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles

Gwahoddedigion:

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd John Spanswick | Ar Arweinydd |
| Y Cynghorydd Hywel Williams | Aelod Cabinet dros Gyllid a Pherfformiad |
| Y Cynghorydd Martyn Jones | Aelod Cabinet dros Wasanaethau Addysg ac Iechyd |
| Y Cynghorydd Eugene Caparros | Aelod Cabinet dros Newid yn yr Hinsawdd a'r Amgylchedd (Rhannu Swydd) |
| Y Cynghorydd Gary Haines | Aelod Cabinet dros Newid yn yr Hinsawdd a'r Amgylchedd (Rhannu Swydd) |
| Y Cynghorydd Neelo Farr | Aelod Cabinet dros Adfywiad, Datblygiad Economaidd a Thai |
| Y Cynghorydd Melanie Evans | Aelod Cabinet dros Adnoddau |

| | |
|---|---|
| Jake Morgan | Prif Weithredwr |
| Carys Lord | Pennaeth Cyllid, Tai a Newid |
| Lindsay Harvey | Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg, Blynyddoedd Cynnar a Phobl Ifanc |
| Janine Nightingale | Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cymunedau |
| Kelly Watson | Prif Swyddog, Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddio, AD a Pholisi Corfforaethol |

| | |
|---|---|
| Kate Pask | Rheolwr Perfformiad Corfforaethol |
| David Wright | Dirprwy Bennaeth Gwasanaethau Plentyn a Theuluoedd |

**This document is available in English / Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg**

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Meryl Lawrence | Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Craffu |
| Jessica Mclellan | Swyddog Craffu |

Datganiadau o Fuddiannau

Y Cynghorydd AJ Williams – Eitem 4 – Personol - Cadeirydd y Llywodraethwyr yn Ysgol Gynradd Coety

## 187. Cymeradwyaeth Cofnodion

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad a Wnaed | PENDERFYNWYD:<br><br>Cymeradwyo cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol dyddiedig 27 Ionawr 2026 fel cofnod gwir a chywir. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 16 Mawrth 2026 |

## 188. Perfformiad Corfforaethol Chwarter 3 2025-2026-27

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad a Wnaed | PENDERFYNWYD:<br><br>Yn dilyn ystyried yr adroddiad a'i drafod yn fanwl gydag Aelodau'r Cabinet ac Uwch Swyddogion, gwnaeth y Pwyllgor yr argymhellion canlynol ynghyd â cheisiadau am wybodaeth ychwanegol:<br><br>**Argymhellion**<br><br>1. **Argymhellodd** y Pwyllgor y dylid ystyried cynnwys mwy o amserlenni yn y naratif ar y Dangosfyrddau Perfformiad, yn enwedig ar gyfer y canlynol:<br><br>a. WBO 1.6.6 - *Datblygu'r Strategaeth Partneriaeth Byw'n Iach* – amserlen ar gyfer sicrhau cyllid dichonoldeb;<br>b. WBO 2.3.1 – amserlen/cerrig milltir i *Gymeradwyo a gweithredu'r strategaeth ddigidol newydd*; a |

| | |
|---|---|
| | c. WBO 3.4 – amserlen ar gyfer pob un o'r prosiectau o dan *Moderneiddio Adeiladau Ysgolion*<br><br>2. **Argymhellodd** y Pwyllgor y dylid ystyried newid geiriad WBO 2.1.4 o *'Gwella'r ffordd yr ydym yn trin ac yn dysgu oddi wrth gwynion a chanmoliaeth corfforaethol'* i gynnwys gwella'r broses sy'n ymwneud â chwynion.<br><br>3. Mewn perthynas â digartrefedd, bu'r Pwyllgor yn trafod y ffaith weithiau, er bod y Cyngor yn cyflawni ei ddyletswydd gyfreithiol tuag at bobl sy'n cyflwyno eu hunain fel rhai digartref, e.e. drwy ddarparu llety dros dro, nad yw eu hangen tai penodol bob amser yn cael ei ateb ac, o ystyried nifer y cartrefi newydd oedd yn cael eu hadeiladu yn y Sir, yr angen i ganran fod yn addas i anghenion pobl. Felly, **argymhellodd** y Pwyllgor y dylid ystyried adolygu effeithiolrwydd ymyriadau'r Cyngor mewn perthynas â digartrefedd a'u bod yn cael eu mesur mewn ffordd sy'n canolbwyntio ar y dinesydd a'r ffordd y mae'r Cyngor yn gweithio gyda Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig a'r sector preifat i sicrhau ystod o lety addas er mwyn mynd i'r afael â digartrefedd yn y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hir.<br><br>4. Mynegodd y Pwyllgor bryder ynghylch y datganiad yn WBO 4.5.2 bod cynnig twf tair blynedd y Gwasanaeth '*yn dal i aros am adborth gan Aelod y Cabinet dros Addysg a Gwasanaethau Ieuenctid'* ac **argymhellodd** y dylid diweddaru'r naratif cyn gynted â phosibl ar y Dangosfwrdd Perfformiad.<br><br>5. Bu'r Pwyllgor yn trafod tabl *Absenoldeb Salwch yn ôl Rheswm* ar y Dangosfwrdd Perfformiad ac **argymhellodd** y dylid cynnwys ffigurau'r llynedd hefyd yn y tabl hwn er mwyn dangos a oedd lefelau wedi gwella ac i ba gyfeiriad yr oedd y lefelau'n symud yn gyffredinol.<br><br>6. **Argymhellodd** y Pwyllgor y dylid ystyried cynnwys Canlyniadau Arolygiadau Estyn ar y Traciwr Rheoleiddio.<br><br>**Gwybodaeth Ychwanegol y Gofynnwyd Amdani**<br><br>7. Bu'r Pwyllgor yn trafod y mesur, 'uchaf/isaf a ffefrir' a **gofynnodd** am nodyn yn egluro ei ddefnydd a sut y caiff ei ddefnyddio pan fydd ymrwymiadau/Dangosyddion Perfformiad ar y targed neu uwchlaw'r targed.<br><br>8. Gan gyfeirio at WBO 3.4.3 a 3.4.4 yn ymwneud ag Ysgolion Y Ferch O'r Sgêr, Afon Y Felin ac Ysgol Gynradd Corneli, **gofynnodd** y Pwyllgor am gadarnhad bod y gwaith papur angenrheidiol ar gyfer cyfnewid tir gyda Valleys to Coast wedi cael ei lofnodi a'r amserlenni tebygol ar gyfer |

| | |
|---|---|
| | dyfarnu'r contract adeiladu.<br><br>9. Bu'r Pwyllgor yn trafod WBO 3.2 a **gofynnodd** am fanylion y gefnogaeth i ysgolion i fynd i'r afael â phroblemau oedd yn ymwneud ag ymddygiad a phresenoldeb, er mwyn anelu at gyrraedd y targedau a bod rhagor o fanylion yn cael eu cynnwys hefyd yn y naratif ar y Dangosfwrdd Perfformiad.<br><br>10. **Gofynnodd** y Pwyllgor am i'r briff oedd i ddod, y cyfeiriwyd ato gan Aelod y Cabinet dros Addysg a Gwasanaethau Ieuenctid ynghylch rhaglen moderneiddio ysgolion, gynnwys diweddariadau manwl am bob prosiect moderneiddio ac uwchraddio ysgolion.<br><br>11. Mynegodd y Pwyllgor bryder ynghylch y datganiad yn WBO 4.3 bod '*mwy o bobl oedd angen llety wedi'i addasu'n arbennig yn cael eu gwneud yn ddigartref o'r ysbyty*' a **gofynnodd** am nifer yr achosion oedd yn y categori hwn a pha fesurau a ystyriwyd i fynd i'r afael â'r broblem hon, e.e. gofal cam-i-lawr posibl neu ddefnyddio cartrefi preswyl neu nyrsio presennol dros dro. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 16 Mawrth 2026 |

## 189. Monitro Cyllideb 2025-26 – Rhagolwg Refeniw Chwarter 3

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad a Wnaed | PENDERFYNWYD:<br><br>Yn dilyn ystyried yr adroddiad a'i drafod yn fanwl gydag Aelodau'r Cabinet ac Uwch Swyddogion, gwnaeth y Pwyllgor y ceisiadau canlynol am wybodaeth ychwanegol:<br><br>**Gwybodaeth Ychwanegol y Gofynnwyd Amdani**<br><br>12. Mynegodd y Pwyllgor bryder ynghylch y tanwariant sylweddol a ragwelid ar ddiwedd y flwyddyn a **gofynnodd** am syniad gan y Cabinet am ei flaenoriaethau strategol o ran defnyddio unrhyw warged cyllidebol ar ôl cau'r cyfrifon ac yr adroddid am unrhyw danwariant neu orwariant sylweddol posibl oedd yn hysbys wrth Weithgor Cyllideb Craffu er mwyn gwella tryloywder ac i sicrhau ei fod yn ychwanegu gwerth pellach at y broses o bennu cyllideb. |

**This document is available in English / Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg**

| | |
|---|---|
| | 13. Mynegodd y Pwyllgor bryder ynghylch y tanwariant mewn 8 allan o 11 Maes Gwasanaeth mewn Gofal Cymdeithasol i Oedolion a gofynnodd am gadarnhad nad oedd yr effeithlonrwydd yn cael effaith andwyol ar ddefnyddwyr y gwasanaeth. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 16 Mawrth 2026 |

**190. Enwebiad Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) Cwm Taf Morgannwg**

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad a Wnaed | PENDERFYNWYD:<br><br>Bod y Pwyllgor yn enwebu'r Cynghorydd Elaine Winstanley fel Aelod y Grŵp Llafur a'r Cynghorydd Martin Williams i gymryd lle Aelod Dirprwyol Grwp Annibynnol Sir Pen-y-bont ar Ogwr ar Gydbwyllgor Trosolwg a Chraffu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf Morgannwg am weddill blwyddyn ddinesig 2025-26. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 16 Mawrth 2026 |

**191. Diweddariad y Flaenraglen Waith**

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad a Wnaed | PENDERFYNWYD:<br><br>Cymeradwyodd y Pwyllgor ei Flaenraglen Waith ddrafft yn Atodiad A yn amodol ar y cais canlynol, nododd y Daflen Monitro Gweithredu Argymhellion i olrhain ymatebion i Argymhellion y Pwyllgorau a wnaed mewn cyfarfodydd blaenorol yn Atodiad B a nododd y Blaenraglenni Gwaith ar gyfer y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu eraill yn Atodiadau C, D ac E.<br><br>1. Bu'r Pwyllgor yn trafod rhestr yr Adroddiadau oedd i'w trefnu a **gofynnodd** am i'r rhain gael eu trefnu cyn gynted ag yr oedd modd. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 16 Mawrth 2026 |

**This document is available in English / Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg**

## 192. Materion Brys

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad a Wnaed | Dim. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 16 Mawrth 2026 |

I arsylwi dadl bellach a gynhaliwyd ar yr eitemau uchod, cliciwch ar y ddolen hon

Terfynwyd y cyfarfod yn 12:39.

**This document is available in English / Mae’r ddogfen hon ar gael yn Saesneg**